FOOD STANDARDS AGENCY

Egluro Mesurau Rheoli BSE a Chig Eidion Newydd

Nod y daflen hon yw egluro beth sy'n cael ei wneud i reoli BSE ac i sicrhau bod unrhyw risg o fwyta cig eidion a chynhyrchion cig eidion yn isel iawn. Os ydych am gael rhagor o wybodaeth, mae yna atebion i gwestiynau cyffredin yn y cefn.

Cyflwyniad 3

Sut mae BSE wedi cael ei reoli? 5

Y Gwaharddiad ar Fwyd Anifeiliaid
Tynnu Deunydd Risg Penodedig
Mesurau rheoli ar 'gig a adferwyd yn fecanyddol'
Y Rheol Dros Drideg Mis

Y System newydd o Brofi am BSE mewn gwartheg hŷn 9

Pa mor ddibynadwy yw'r System newydd o Brofi am BSE? 10

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd 13

Atebion i gwestiynau cyffredin 14

Ble alla i gael rhagor o wybodaeth? 15

Mae BSE mewn gwartheg, a elwir weithiau yn 'glefyd y gwartheg gwallgof', wedi gostwng i'w lefelau isaf yn y DU ers dechrau cofnodi ym 1988.

Mesurau llwyddiannus y Llywodraeth i reoli'r clefyd ac i wneud cig eidion a chynhyrchion cig eidion yn fwy diogel i bobl ei fwyta sy'n gyfrifol am y gostyngiad cyflym mewn achosion o BSE – o dros 37,000 o achosion clinigol ym 1992 i 90 o achosion clinigol yn 2004.

Nawr, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno System Brofi am BSE i ddisodli un o'r mesurau rheoli sydd wedi gwahardd gwartheg dros drideg mis o'r gadwyn fwyd. Nod y system yw sicrhau bod defnyddwyr yn y DU yn parhau i gael eu diogelu'n dda iawn. Defnyddiwyd profion BSE ar wartheg hŷn yn llwyddiannus yng ngweddill Ewrop ers 2001.

Mae'r daflen hon yn disgrifio'r mesurau sydd wedi llwyddo i ostwng yr achosion o BSE yn sylweddol (gelwir y rhain yn Fesurau Rheoli BSE) ac yn egluro'r rhesymau dros gyflwyno system brofi.

Sut mae BSE wedi cael ei reoli?

Cafodd BSE, neu 'enseffalopathi sbyngffurf buchol' ei gadarnhau am y tro cyntaf mewn gwartheg ym 1986.

Ers diwedd yr 1980au, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno mesurau i leihau'r risg o fwyta cig eidion a chynhyrchion cig eidion a allai fod wedi'u heintio gyda BSE ac wedi cryfhau'r mesurau'n gynyddol. Gelwir y mesurau yn Fesurau Rheoli BSE.

Mae yna dri prif fesur:

- Gwahardd bwyd anifeiliaid a oedd yn cynnwys protein anifeiliaid y credwyd ei fod yn lledaenu BSE. Gelwir y mesur hwn yn **Waharddiad ar Fwyd Anifeiliaid**.
- Mae'r rhannau o anifail sy'n fwyaf tebygol o gynnwys BSE yn cael eu tynnu pan fo'r anifail yn cael ei ladd, ac nid ydynt yn cyrraedd ein bwyd. Gelwir hwn yn **Fesur Deunydd Risg Penodedig** ac mae'n cael gwared ar bron y cyfan o'r risg (dros 99%) a allai fod yn bresennol mewn unrhyw anifail sydd â BSE.
- Tan fis Tachwedd 2005, nid oedd modd gwerthu gwartheg ar gyfer bwyd os oeddynt dros 30 mis oed, gan nad yw BSE yn datblygu'n llawn mewn gwartheg tan eu bod yn llawer hŷn. Galwyd y mesur hwn yn **Rheol Dros Drideg Mis**.

Cyflwynwyd mesur rheoli arall hefyd i wahardd y broses o adfer cig yn fecanyddol o esgyrn gwartheg.

Mae'r mesurau rheoli wedi'u seilio ar y wybodaeth wyddonol ddiweddaraf ac wedi'u cynllunio i leihau'r risg o BSE i lefel isel iawn, er na ellir dileu'r risg o BSE yn gyfan gwbl.

Y Gwaharddiad ar Fwyd Anifeiliaid

Mae'r rhan fwyaf o arbenigwyr yn cytuno bod BSE yn cael ei ledaenu ymysg gwartheg mewn bwyd anifeiliaid a oedd yn cynnwys protein anifeiliaid oedd wedi'i heintio gyda BSE.

Rodd y cig a'r blawd esgyrn a arferai gael eu cynnwys mewn bwyd anifeiliaid yn cael eu cynhyrchu trwy broses o'r enw rendro, lle roedd darnau o garcasau anifeiliaid nad oedd eu hangen at unrhyw ddiben arall yn cael eu troi yn gynhwysyn i'w ddefnyddio mewn rhai mathau o fwydydd anifeiliaid. Roedd hyn yn arfer cyffredin yn y DU ac mewn llawer o wledydd eraill o tua 1920 nes iddo gael ei wahardd yn y DU ym 1988 (y cyntaf mewn cyfres o waharddiadau ar fwydydd anifeiliaid).

Ym mis Awst 1996 yn y DU cyflwynwyd gwaharddiad ategol ar fwydo gwartheg – ac anifeiliaid fferm eraill, fel defaid, moch ac ieir – gyda chig a blawd esgyrn sy'n deillio o famaliaid. Bydd y Gwaharddiad ar Fwyd Anifeiliaid yn parhau i fod yn weithredol ac ni fydd anifeiliaid fferm yn cael bwyta cig a blawd esgyrn.

Yn 2001, cafodd y gwaharddiad ar fwydo anifeiliaid fferm gyda chig a blawd esgyrn sy'n cynnwys protein anifeiliaid ei ymestyn i holl wledydd yr Undeb Ewropeaidd.

Tynnu'r Deunydd Risg Penodedig

Y gofyniad i dynnu'r Deunydd Risg Penodedig yw'r prif fesur rheoli BSE sy'n diogelu ein bwyd. Mae'n cael gwared ar bron y cyfan o'r risg (99%). Mae Deunydd Risg Penodedig yn cynnwys rhannau o anifail – fel yr ymennydd a'r asgwrn cefn – sy'n fwyaf tebygol o gynnwys BSE os yw'r anifail wedi'i heintio.

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid tynnu a dinistrio'r Deunydd Risg Penodedig pan fo anifeiliaid yn cael eu lladd. Mae'r deunydd hwn yn cael ei wahardd yn gyfan gwbl o'r gadwyn fwyd a bydd hyn yn parhau.

Mae mesurau rheoli Deunydd Risg Penodedig hefyd yn weithredol ledled yr Undeb Ewropeaidd.

Y gwaharddiad ar gig a adferwyd yn fecanyddol

Yn y gorffennol, roedd cynhyrchion fel byrgyrs, selsig, peis a briwgig rhad yn cynnwys 'cig a adferwyd yn fecanyddol'. Cig oedd yn weddill ar yr asgwrn ar ôl y broses dynnu arferol oedd y cig hwn oedd yn cael ei dynnu ar wasgedd uchel trwy ddull mecanyddol wedyn.

Yng nghanol yr 1990au, cyflwynodd y Llywodraeth waharddiad ar y broses o adfer cig yn fecanyddol o asgwrn cefn gwartheg gan fod cig oedd wedi bod trwy broses o'r fath â risg bychan o BSE o anifeiliaid heintiedig. Ym 1998, cafodd y gwaharddiad hwn ei ymestyn i gynnwys asgwrn cefn anifeiliaid cnoi cil eraill, ac ym mis Awst 2001 i holl esgyrn anifeiliaid cnoi cil. Bydd y gwaharddiad hwn hefyd yn parhau.

Y Rheol Dros Drideg Mis

Mae profiad wedi dangos nad yw unrhyw fuwch sydd wedi'i heintio gyda BSE yn debyg o ddangos arwyddion clinigol o'r clefyd nes ei bod yn bedair oed.

Mae'n annhebygol felly y byddai unrhyw anifail o dan drideg mis oed yn cynnwys lefel sylweddol o BSE, hyd yn oed os yw'r clefyd arnynt.

Fel cam diogelwch, cyflwynwyd gwaharddiad ar werthu gwartheg dros drideg mis oed fel bwyd yn y DU ym 1996. Gelwir y mesur hwn yn Rheol Dros Drideg Mis.

Ni chafwyd achosion o BSE mewn gwartheg iau na 30 mis oed yn y DU ers 1996.

O ganlyniad i'r gostyngiad cyflym mewn achosion o BSE a'r cynnydd a wnaed o ran datblygu profion effeithiol ar gyfer y clefyd, yn 2002 gofynnodd y Llywodraeth i'r Asiantaeth Safonau Bwyd ystyried defnyddio profion BSE ar gyfer gwartheg hŷn yn lle'r Rheol Dros Drideg Mis.

Y System newydd o Brofi am BSE mewn gwartheg hŷn

Ar gyngor yr Asiantaeth Safonau Bwyd, cytunodd y Llywodraeth ym mis Rhagfyr 2004 nad oedd y lefel o risg erbyn hyn yn cyfiawnhau gwahardd gwartheg dros 30 mis oed rhag cael mynediad i'r gadwyn fwyd. Cytunwyd, yn hytrach, i brofi'r holl wartheg a anwyd ar ôl mis Gorffennaf 1996 ac sydd dros 30 mis oed ar adeg eu lladd a chaniatáu mynediad i'r gadwyn fwyd i'r rhai a brofodd yn negyddol yn unig.

Bydd pob buwch a anwyd cyn i'r Gwaharddiad ar Fwyd Anifeiliaid ategol gael ei gyflwyno ym mis Awst 1996 yn parhau i gael ei gwahardd rhag cael ei defnyddio fel bwyd.

Mae ymchwil yn dangos y bydd y risg o brofi gwartheg hŷn am BSE, yn hytrach na'u gwahardd yn gyfan gwbl, yn debygol o arwain at lai nag un achos ychwanegol o vCJD mewn pobl yn ystod y 60 mlynedd nesaf. Y sefyllfa waethaf bosib yw 2.5 o achosion ychwanegol. (Gweler tudalen 15 i gael rhagor o wybodaeth am vCJD).

Dan y System Brofi am BSE, sydd i ddechrau ym mis Tachwedd 2005, bydd hi'n bosib gwerthu gwartheg dros 30 mis oed sydd wedi profi'n negyddol am BSE fel bwyd. Bydd gwartheg sy'n profi'n bositif yn cael eu gwahardd o'r gadwyn fwyd a'u difa. Bydd gwartheg dan 30 mis yn parhau i gael mynediad i'r gadwyn fwyd heb eu profi fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Bydd y ddau fesur rheoli BSE arall – tynnu deunydd risg penodedig a'r Gwaharddiad ar Fwyd Anifeiliaid – hefyd yn parhau, yn ogystal â'r gwaharddiad ar adfer cig yn fecanyddol o esgyrn anifeiliaid cnoi cil.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystyried bod y mesurau rheoli BSE yn diogelu'r cyhoedd yn dda iawn a bod y risg o haint BSE yn cyrraedd y gadwyn fwyd yn parhau i fod yn isel iawn.

Pa mor ddibynadwy yw'r System newydd o Brofi am BSE?

Cyn i'r Llywodraeth roi cymeradwyaeth i ddisodli'r Rheol Dros Drideg Mis gyda phrofion BSE, gofynnwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd a oedd system brofi ddibynadwy ar gael i'w defnyddio ledled y DU. Cafodd y system ei threialu mewn nifer o ladd-dai gwahanol mewn gwahanol rannau o'r DU a'i harchwilio'n ofalus gan Grŵp Cynghori Annibynnol. Fodd bynnag, ni chafodd cig o wartheg dros 30 mis oed fynediad i'r gadwyn fwyd o ganlyniad i'r profion hyn.

Yn seiliedig ar ganlyniad y profion hyn, datblygodd y Grŵp Cynghori Annibynnol system brofi a chynghori Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd am fanylion y system. Derbyniodd y Bwrdd gyngor y Grŵp, sydd bellach wedi cael cymeradwyaeth y Llywodraeth a'i roi ar waith.

Cyflwynwyd nifer o fesurau diogelwch hefyd:

- Sefydlwyd Grŵp Adolygu Gweithrediad, dan arweiniad yr Asiantaeth Safonau Bwyd, i wirio'r broses o gyflwyno'r system brofi ym mlwyddyn gyntaf ei bodolaeth. Bydd cynrychiolydd buddiannau defnyddwyr hefyd yn rhan o'r grŵp hwn.

- Penodwyd milfeddygon ychwanegol gan y Gwasanaeth Hylendid Cig – asiantaeth weithredol yr Asiantaeth Safonau Bwyd – yn unswydd er mwyn sicrhau bod y system brofi newydd yn gweithio'n iawn. Mae'n rhaid iddynt ymweld â phob gwaith cig sy'n cynnal y profion ar ddau ddiwrnod cyntaf gweithredu'r system newydd, ac yn rheolaidd wedi hynny. Mae trefniadau tebyg wedi'u cyflwyno gan Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon.

- Cyflwynwyd deddf newydd sy'n ei gwneud hi'n anghyfreithlon i anfon gwartheg a anwyd cyn mis Awst 1996 i ladd-dy i'w lladd i'w bwyta gan bobl. Fel mesur diogelwch ychwanegol, bydd yr holl wartheg sy'n cael eu hanfon i ladd-dai sy'n lladd gwartheg ar gyfer bwyd yn cael eu gwirio i sicrhau nad oes gwartheg o'r oedran hwn yn cael eu derbyn.

- Os oes gan y Grŵp Adolygu Gweithrediad bryderon am y system brofi, bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynghori'r Llywodraeth ar newidiadau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, os oes angen.

- Bydd canfyddiadau'r Grŵp yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd.

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd, asiantaeth annibynnol o'r llywodraeth sy'n gweithredu ledled y DU, yn rhoi cyngor a gwybodaeth i'r cyhoedd a'r llywodraeth ar ddiogelwch bwyd, maethiad a diet.

Sefydlwyd yr Asiantaeth i ddiogelu buddiannau defnyddwyr.
Ei hegwyddorion arweiniol yw:

- rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf
- gweithredu'n agored ac yn hygyrch
- bod yn llais annibynnol

Mae cyngor yr Asiantaeth yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael gan bwyllgorau cynghori arbenigol annibynnol, ac mae'r holl gyngor yn cael ei gyhoeddi.

Cyn rhoi argymhellion i'r Llywodraeth ar newidiadau i Fesurau Rheoli BSE, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cael cyngor gan bwyllgorau cynghori arbenigol sy'n delio gyda BSE, fel y Pwyllgor Cynghori ar Enseffalopathi Sbyngffurf. Cafodd y System newydd o Brofi am BSE mewn gwartheg hŷn ei threialu gan y Grŵp Cynghori Annibynnol a ddaeth i'r casgliad ei bod yn system effeithiol. Cynhaliodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd gyfarfodydd cyhoeddus i drafod profion BSE yng Nghaerdydd, Llundain, Caeredin a Belfast.

Beth yw BSE?

Enseffalopathi sbyngffurf buchol (BSE) yw'r enw gwyddonol ar 'glefyd y gwartheg gwallgof'. Mae'n glefyd sy'n effeithio ar wartheg. Mae'r clefyd yn difa meinwe ymennydd gwartheg heintiedig, a fydd yn edrych fel sbwng. Mae BSE yn arwain at farwolaeth bob amser.

Mae BSE yn un o grŵp o glefydau sy'n effeithio ar nifer o famaliaid gwahanol.

Mae'r clefydau hyn, a elwir yn glefydau enseffalopathi sbyngffurf trosglwyddadwy (TSEs), neu glefydau prion, yn cael eu hachosi gan broteinau abnormal yn crynhoi yn yr ymennydd a'r system nerfol. Mae TSEs yn cael eu henw o'u hymddangosiad sbyngaidd yn yr ymennydd heintiedig, a'r ffaith y gallant gael eu trosglwyddo trwy ddeunydd heintiedig.

Cafodd yr achos cyntaf o BSE ei gadarnhau mewn gwartheg ym 1986. Er bod llawer o waith ymchwil wedi'i wneud, ni all neb ddweud yn bendant o ble daeth BSE, er bod yna lawer o ddamcaniaethau.

Pa mor beryglus yw BSE i bobl?

Mae BSE yn perthyn i deulu o glefydau, ac mae sawl un ohonynt yn gallu effeithio ar bobl. Y clefyd mwyaf cyffredin yn y grŵp hwn ymysg pobl yw Clefyd Creutzfeldt-Jacob (CJD). Clefyd prin ac angheuol ar ymennydd yw hwn sydd fel rheol yn effeithio ar bobl hŷn.

Nid yw CJD yn glefyd newydd ymysg pobl, ond ym 1996, canfu gwyddonwyr fath newydd o CJD sy'n effeithio ar bobl ifanc yn bennaf. Daeth ymchwilwyr i'r casgliad mai tarddiad tebygol y clefyd newydd hwn, sef CJD amrywiolyn neu vCJD, oedd pobl yn dod i gysylltiad â BSE.

Fel BSE mewn gwartheg, mae vCJD bob amser yn arwain at farwolaeth mewn pobl. Rhwng 1995 a mis Gorffennaf 2005, bu farw 150 o bobl o vCJD yn y DU, ac roedd saith o bobl ag achos posib o vCJD.

Ble alla i gael rhagor o wybodaeth?

Mae rhagor o wybodaeth am yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar www.food.gov.uk a www.eatwell.gov.uk

Gwefan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: www.defra.gov.uk/animalh/bse/index.html

Gwefan Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yr Undeb Ewropeaidd: http://europa.eu.int/comm/food/food/biosafety/bse/index_en.htm

Gwybodaeth ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd: www.food.gov.uk/bse

Uned Goruchwylio CJD Caeredin: www.cjd.ed.ac.uk

Cyhoeddiadau yr Asiantaeth Safonau Bwyd

I archebu copïau pellach o'r daflen hon neu gyhoeddiadau eraill a gynhyrchwyd gan yr Asiantaeth, cysylltwch â Chyhoeddiadau yr Asiantaeth Safonau Bwyd:

ffôn	0845 606 0667
minicom	0845 606 0678
ffacs	020 8867 3225
ebost	foodstandards@ecgroup.uk.com

Cyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd Hydref 2005.
Dyluniwyd gan Bell. Argraffwyd gan CW Print.

© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd yn Lloegr 1k Tachwedd/05 FSA/1015/1105

www.eatwell.gov.uk
www.food.gov.uk